PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

[These are advertisements for postgraduate scholarships in fields in which the ability to read, write and communicate in Welsh are essential]

Ysgol y Gymraeg

Y Coleg Addysg, Dyniaethau a Chelfyddydau

Y mae cyfleoedd rhagorol yn Ysgol y Gymraeg, Bangor, ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig sy'n dymuno dechrau astudio ar 1 Hydref 2011. Yn y daflen hon, fe gewch ragor o wybodaeth am y pedwar cynllun a ganlyn ar gyfer ôl-raddedigion:

(1) Ysgoloriaeth PhD Cyfrwng Cymraeg: Y Gymraeg a Thechnolegau Cyfathrebu
(2) Ysgoloriaethau MA a PhD yr AHRC
(3) Ysgoloriaeth MRes (12 mis) wedi'i chyllido'n llawn
(4) Cyrsiau MA drwy Gynlluniau Mynediad i Radd Meistr.

A wnewch chwi sylwi, os gwelwch yn dda, fod dyddiadau cau gwahanol ar gyfer rhai o'r cynlluniau hyn.

Ysgol y Gymraeg

Y Coleg Celfyddydau, Addysg a Dyniaethau

Ysgoloriaeth Ôl-radd Cyfrwng Cymraeg: Y Gymraeg a Thechnolegau Cyfathrebu

Mae Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor, yn cynnig ysgoloriaeth ôl-radd cyfrwng Cymraeg ym maes y Gymraeg a Thechnolegau Cyfathrebu i ddechrau ar 1 Hydref 2011. Cyllidir yr ysgoloriaeth hon gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae cyllid ar gael am hyd at bum mlynedd, yn cynnwys tair/pedair blynedd fel myfyriwr ymchwil am ddoethuriaeth a blwyddyn ychwanegol fel cymrawd dysgu. Os nad oes gennych eisoes radd meistr, neu os nad ydych yn dilyn cwrs meistr ar hyn o bryd, bydd disgwyl i chwi ddilyn cwrs MA yn ystod blwyddyn gyntaf yr ysgoloriaeth.

Bydd yr ysgoloriaeth ôl-radd yn cynnwys costau hyfforddi'r brifysgol (y gyfradd gyfredol i fyfyrwyr cartref/UE yw £3,466) a hefyd grant cynhaliaeth (y gyfradd gyfredol yw £13,590 y flwyddyn). Bydd y maes ymchwil yn canolbwyntio ar y modd yr ymatebodd y Gymraeg i dechnolegau cyfathrebu gwahanol o gyfnod dyfodiad yr argraffwasg hyd at y cyfnod diweddar, a'r prif ffocws fydd y trawsnewidiad chwyldroadol yn y presennol o ddiwylliant print i ddiwylliant electronig. Gwahoddir ceisiadau gan ddarpar ymchwilwyr sydd yn awyddus i archwilio'r materion hyn mewn cyd-destunau theoretig a deallusol dreiddgar. Y mae'r ysgoloriaeth yn agored i fyfyrwyr sydd â gradd, neu ar fin graddio, mewn disgyblaethau heblaw'r Gymraeg. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus hefyd wneud peth gwaith dysgu cyfrwng Cymraeg yn rhai o'r Ysgolion sydd yn rhan o'r Coleg fel un o amodau'r ysgoloriaeth. Ystyrir blwyddyn olaf yr ysgoloriaeth yn flwyddyn gymrodoriaeth pan fydd yr ymrwymiadau dysgu'n cynyddu.

Mae Ysgol y Gymraeg yn rhan o'r Coleg Celfyddydau, Addysg a Dyniaethau a gellir cael gwybodaeth bellach am y coleg ar ei wefan:

http://www.bangor.ac.uk/caeh/

Mae Ysgol y Gymraeg ym Mangor yn un o brif ganolfannau dysg y Gymraeg. Bu â rhan allweddol yn y gwaith o gynhyrchu dau o gyfeirlyfrau Cymreig mawr y cyfnod diweddar, *The Welsh Academy English-Welsh Dictionary* (1995) a *Gwyddoniadur Cymru yr Academi Gymreig* (2008). Mae arbenigedd ymchwil ei staff yn ymestyn o'r Oesoedd Canol hyd at y cyfnod diweddar. Bu'r Ysgol yn flaengar yn y gorffennol yn datblygu cyfleoedd dysgu ym maes y cyfryngau a chan fod y diffiniad o 'lenyddiaeth', o raid bellach, yn ehangach na'r llyfr printiedig, y mae'n awyddus i'r cwricwlwm adlewyrchu hynny. Dros y blynyddoedd diwethaf gwelodd yr Ysgol gynnydd rhyfeddol yn nifer ei myfyrwyr ôl-raddedig, ac o ddod i Fangor byddech y dod yn rhan o'r gymuned ddeallusol fywiog hon. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar wefan yr Ysgol:

http://www.bangor.ac.uk/ysgolygymraeg/

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus y cymwysterau/cryfderau canlynol:

- Gradd ail ddosbarth uwch/dosbarth cyntaf neu gymhwyster ôl-radd mewn maes perthnasol. I fedru derbyn yr ysgoloriaeth, mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod wedi graddio o sefydliad addysg uwch cydnabyddedig, neu'n fyfyriwr israddedig sy'n disgwyl graddio cyn 31 Gorffennaf 2011.
- Medru siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn raenus.
- Dangos y gallu a'r dyfalbarhad sydd eu hangen i gwblhau PhD trwy ymchwil o fewn cyfnod yr ysgoloriaeth.
- Paratoi amlinelliad o'i syniadau ar gyfer y project ymchwil arfaethedig.
- Bod mewn sefyllfa i gyflawni dyletswyddau dysgu cyfrwng Cymraeg i'r Ysgolion sydd yn y Coleg. Disgwylir i'r deiliad wneud cyfraniad pwysig tuag at ddysgu cyfrwng Cymraeg a thuag at ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd.

Dylai ymgeiswyr anfon llythyr cais yn cynnwys amlinelliad o'u syniadau ar gyfer y project ymchwil arfaethedig (dim mwy na 1,000 o eiriau), copi cyfredol o'u CV, ynghyd ag enwau dau ganolwr sy'n gyfarwydd â'u gwaith academaidd, at: Yr Athro Peredur Lynch, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd, LL57 2DG (p.i.lynch@bangor.ac.uk / 01248 382245).

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 24 Mehefin 2011. Caiff ymgeiswyr eu cyfweld ar gyfer yr ysgoloriaeth hon fel rhan o'r broses ddewis.

Am ragor o wybodaeth, neu am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â'r Athro Lynch (gw. uchod).

PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Ysgoloriaethau MA a PhD yr AHRC

Mae Ysgol y Gymraeg a'r Coleg Addysg, Dyniaethau a Chelfyddydau yn gwahodd ceisiadau am ddwy ysgoloriaeth ôl-raddedig i ddechrau ar 1 Hydref 2011. Ariennir y ddwy ysgoloriaeth gan yr AHRC.

Bydd y naill ar gael i fyfyrwyr sydd am ddilyn cwrs meistr (blwyddyn) yn y Gymraeg/Astudiaethau Celtaidd a'r llall ar gael i ddilyn cwrs PhD (tair blynedd) yn y Gymraeg/Astudiaethau Celtaidd.

Dylai ymgeiswyr am ysgoloriaeth y cwrs meistr fod â gradd BA neu fod yn disgwyl graddio cyn 31 Gorffennaf 2011. Dylai ymgeiswyr am yr ysgoloriaeth PhD fod â gradd meistr neu fod wrthi'n astudio am un ar hyn o bryd. Telir y ffioedd yn llawn, a bydd grant cynhaliaeth o £9,490 (di-dreth) yn achos ysgoloriaeth y cwrs meistr a grant cynhaliaeth blynyddol o £13,590 (di-dreth) yn achos yr ysgoloriaeth PhD.

Cewch ragor o fanylion am yr ysgoloriaethau hyn drwy gysylltu, naill ai â'r Athro Jerry Hunter (wesc02@bangor.ac.uk), neu'r Athro Peredur I. Lynch, Pennaeth Ysgol y Gymraeg. (wes010@bangor.ac.uk): 01248 382240. Er mwyn cael copi o'r ffurflen gais, dylech gysylltu â Dr Suan Lee (muse01@bangor.ac.uk), Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd, LL57 2DG. **Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 1 Gorffennaf 2011.**

Ysgol y Gymraeg

Y Coleg Celfyddydau, Addysg a Dyniaethau

Ymateb Darllenwyr i Nofelau Cymraeg Diweddar

MRes blwyddyn wedi'i chyllido'n llawn

Mewn partneriaeth â Chyngor Llyfrau Cymru, gwahoddir ceisiadau am efrydiaeth MRes blwyddyn wedi'i chyllido'n llawn. Maes yr ymchwil fydd ymateb darllenwyr i nofelau Cymraeg diweddar a'r modd yr effeithiwyd ar boblogrwydd nofelau Cymraeg yn sgil y cynnydd sylweddol a gafwyd mewn grantiau cyhoeddi sydd ar gael i gyhoeddwyr er 2003. O ran methodoleg, bydd yr ymchwil yn dadansoddi ystod eang o nofelau, a hefyd yn mynd ati i gasglu barn amrediad o ddarllenwyr. Bydd canlyniadau'r ymchwil yn cael eu defnyddio gan Gyngor Llyfrau Cymru wrth baratoi eu strategaethau cyhoeddi yn y dyfodol, yn enwedig o ran datblygu maes e-lyfrau a chyhoeddi digidol. Cyfarwyddir y prosiect gan Dr Angharad Price a'r Athro Gerwyn Wiliams o Brifysgol Bangor, a hynny mewn cydweithrediad â Mr Richard Owen o Gyngor Llyfrau Cymru.

Mae'r efrydiaeth yn cynnwys grant cynhaliaeth di-dreth o £9,500, ynghyd â ffioedd amser llawn a lwfansau ychwanegol. Un o ofynion yr efrydiaeth yw lleoliad gwaith heb dâl am gyfnod o hyd at 30 diwrnod. Ceir mwy o wybodaeth am yr efrydiaeth a'r dull ymgeisio yn www.higherskillswales.co.uk/kess. Gellir ei thrafod yn anffurfiol drwy gysylltu naill ai â Dr Angharad Price (a.price@bangor.ac.uk) neu â'r Athro Gerwyn Wiliams (wes007@bangor.ac.uk). **Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 1 Gorffennaf 2011.**

Sut i wneud cais

Mae'r efrydiaeth hon yn un o Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS). Y cam cyntaf wrth ymgeisio fydd llenwi a chyflwyno ffurflen cymhwyster y gellir ei llwytho i lawr yma. Rhaid llenwi a llofnodi'r ffurflen hon a'i chyflwyno i Katie Minton, Uwch Swyddog Clercyddol, KESS, Ystafell E:109, Y Ganolfan Rheolaeth,

Ffordd y Coleg, Bangor, LL57 2DG. Fe gewch ateb yn dweud a ydych chi'n gymwys o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl derbyn eich ffurflen.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ffurfiol fydd **1 Gorffennaf 2011** a bydd gofyn i ymgeiswyr ar y rhestr fer ddod i gyfweliad. Y dyddiad cychwyn fydd 1 Hydref 2011.

Cymhwyster

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cynllun KESS rhaid bod darpar fyfyrwyr yn byw yn yr Ardal Cydgyfeiriant (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) pan fyddant yn gwneud cais, ac yn gallu gweithio yn yr Ardal Cydgyfeiriant ar ôl cwblhau eu hysgoloriaeth. Y cam cyntaf yn y broses ymgeisio felly yw llenwi'r ffurflen cymhwyster ac ni phrosesir unrhyw geisiadau nad ydynt yn cwrdd â'r meini prawf uchod.

Menter sgiliau uwch Cymru Gyfan yw Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS) dan arweiniad Prifysgol Bangor ar ran y sector Addysg Uwch yng Nghymru. Fe'i cyllidir yn rhannol gan raglen Cydgyfeiriant Cronfa Gymdeithasol Ewrop Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Cyrsiau MA drwy Gynlluniau Mynediad i Radd Meistr

Mae'r cynllun Mynediad i Radd Meistr yn rhoi cyfle i fyfyrwyr weithio ar brosiect MA mewn cydweithrediad â chwmnïau neu gyrff eraill o dan nawdd rhaglen Cydgyfeiriant Cronfa Gymdeithasol Ewrop Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Ar gyfer cynlluniau a fydd yn dechrau ar 1 Hydref 2011, y mae Ysgol y Gymraeg wedi creu partneriaethau â nifer o gwmnïau a chyrff eraill er mwyn cydweithio ar brosiectau cyffrous. Ymhlith y partneriaid arfaethedig hyn y mae Antur Nantlle, Barn Cyf., Gwasg y Bwthyn, Gwasg Carreg Gwalch, Portmeirion Cyf., Rondo Media Cyf. ac Urdd Gobaith Cymru. Bydd y cynllun yn cynnig lwfans sylfaenol o £5,368 (ynghyd â rhai lwfansau eraill) dros gyfnod o 46 wythnos ynghyd â ffioedd amser llawn. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch naill naill ai â'r Athro Jerry Hunter (wesc02@bangor.ac.uk <mailto:wesc02@bangor.ac.uk>), neu'r Athro Peredur I. Lynch, Pennaeth Ysgol y Gymraeg. (wes010@bangor.ac.uk <mailto:wes010@bangor.ac.uk>). Er mwyn sicrhau eich bod chwi'n gymwys i wneud cais am un o'r cynlluniau hyn, dylech gysylltu â Sandra Roberts (atm@bangor.ac.uk <mailto:atm@bangor.ac.uk>). **Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 1 Gorffennaf 2011.**

Y Gymraeg ym Mangor – iaith dysg, iaith gwaith a gyrfa